CHWARAEON DAFARN 2011 PUB GAMES

DARTIAU / DARTS

LLEOLIAD – Clwb 'Monty', Y Drenewydd **I GYCHWYN** – 4.30yp

CYNRYCHIOLAETH – Un tîm o bob Clwb.

Byddem yn ddiolchgar petae pob cystadleuwr yn aelod cyflawn o'r Mudiad o leiaf 7 diwrnod cyn diwrnod y gystadleuaeth.

Os na ellir dangos cerdyn aelodaeth neu os dangosir cerdyn heb llun mewn unrhyw gystadleuaeth fe fydd yn rhaid talu dirwy o £5, fydd y dirwy ddim yn cael ei dalu'n ôl.

CYMHWYSEDD – Tîm o 2 aelod (un bachgen / un merch), 26 oed a thanno ar 1af Medi 2010 i chwarae dyblau.

Os fydd nifer y ceisiadau yn ddigonol bydd y gystadleuaeth yn cael ei chwarae ar ffurf rhynghair – A a B. Bydd yr ennillydd yn A yn chwarae yr un sy'n ail yn B, ac i'r gwrthwyneb, gyda'r ddau enillydd i chwarae yn y Rownd Derfynol a'r ddau sy'n colli i chwarae am y 3ydd a'r 4ydd safle.

Bydd pob gêm y gorau o 3 gyda'r chwaraewyr yn cymeryd ei tro i daflu.

Mae penderfyniad y Prif Stiward yn derfynol.

Mae CFfl Maldwyn yn cadw'r hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.

PŴL / POOL

VENUE – Clwb 'Monty', Y Drenewydd **I GYCHWYN** – 4.30yp

CYNRYCHIOLAETH – Un tîm o bob Clwb.

Byddem yn ddiolchgar petae pob cystadleuwr yn aelod cyflawn o'r Mudiad oleiaf 7 diwrnod cyn diwrnod y gystadleuaeth.

Os na ellir dangos cerdyn aelodaeth neu os dangosir cerdyn heb llun mewn unrhyw gystadleuaeth fe fydd yn rhaid talu dirwy o £5, fydd y dirwy ddim yn cael ei dalu'n ôl.

CYMHWYSEDD - Tîm o 2 aelod, 26 a thanno ar 1af Medi 2010 i chwarae dyblau.

Bydd rheolau Gymdeithas Pŵl Cymru yn gweithredu.

Os fydd nifer y ceisiadau yn ddigonol bydd y gystadleuaeth yn cael ei chwarae ar ffurf rhynghair – A a B. Bydd yr ennillydd yn A yn chwarae yr un sy'n ail yn B, ac i'r gwrthwyneb, gyda'r ddau ennillydd i chwarae yn y Rownd Derfynol a'r ddau sy'n colli i chwarae am y 3ydd a' 4ydd safle.

Chwaraewyr i gymeryd ei tro i chwarae.

Mae penderfyniad y Prif Stiward yn derfynol.

Mae CFfl Maldwyn yn cadw'r hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau.

‘DOMINOS’

Lleoliad – Clwb ‘Monty’, Y Drenewydd **I DDECHRAU** – 4.30yp

CYNRYCHIOLAETH – Bydd hawl gan bob clwb i gofrestru 1 tîm.

Byddem yn ddiolchgar petai bob cystadleuwr yn aelod cyflawn o’r Mudiad 7 diwrnod cyn diwrnod y gystadleuaeth.

Bydd unrhyw aelod sydd am gystadlu sydd heb gerdyn aelodaeth neu gerdyn aelodaeth heb lun yn cael dirwy o £5 yn syth. Ni fydd hwn yn cael ei ad-dalu.

CYMHWYSEDD - Tîm o ddau aelod (merch neu fachgen) 26 oed ac iau ar y 1af o Fedi 2010.

Bydd angen i glybiau ddarparu ei dominos eu hun.

Mae yna sawl amrywiad ar y gêm sylfaenol, ond dyma’r rheolau sy’n cael eu defnyddio gan ‘Fives and Threes’:

Mae pob Aelod i ddewis 6 domino.
Yn y rownd gyntaf bydd y chwaraewr sydd â dwbl chwech yn dechrau. Os nad oes gan rywun dwbl chwech yna bydd y person sydd â dwbl pump yn dechrau, neu ddwbl pedwar a.y.y.b. Yn y rowndiau nesaf bydd y dwbl cyntaf yn is na’r dwbl ddechreuodd y rownd flaenorol, gyda dwbl chwech yn dilyn dwbl dim.
Mae pob aelod yn cymryd ei dro i ychwanegu domino i ddiwedd y llinell o ddominos, gan sicrhau fod y rhifau cyfagos yr un peth. Os yw chwaraewr methu chwarae, mae’n rhaid iddo gnocio’r bwrdd er mwyn i’r chwaraewyr eraill gael gwybod, ac mae’n colli ei dro.

Os yw’r swm ar ochrau agored y llinell yn gallu lluosi gyda phump a/neu tri yna mae’r chwaraewr yn sgorio pwyntiau yn seiliedig ar y lluosog hwnnw.

Er enghraifft, os yw’r ochrau agored yn y llinell o ddominos yn adio i 6, yna mae’r chwaraewr yn sgorio 2 bwynt, gan fod 2 x 3 = 6. Os yw’r ochrau agored yn adio i 12 yna mae’r chwaraewr yn sgorio 4 pwynt, gan fod 4 x 3 =12. Os yw’r ochrau agored yn adio i 15 yna mae’r chwaraewr yn sgorio 8 pwynt gan fod 5 x 3 = 15 a bod 3 x 5 =15. Mae rhestr isod o’r sgoriau posib.

Mae’r gêm yn parhau nes bydd pob chwaraewr wedi cael gwared â’u dominos, neu fod yr un chwaraewr yn gallu cymryd eu tro. Mae’r chwaraewr sydd wedi gorffen neu’r chwaraewr sydd efo’n nifer isaf o ddotiau ar ôl yn sgorio pwynt ychwanegol. Yna caiff y dominos eu cymysgu a bydd pob chwaraewr yn dewis 6 arall i ddechrau’r rownd nesaf.

Mae’r gêm yn parhau nes bydd chwaraewr wedi cyrraedd 61 (neu 121) ar ei ben. Os yw chwaraewr ar 60 pwynt ac yn sgorio 2 bwynt yna nid yw’r pwyntiau hynny yn cyfri. Mae’n rhaid i’r chwaraewr gael 1 pwynt er mwyn diwedd ar 61 ar ei ben.

Sgorio
Mae’r tabl yma yn rhoi rhestr o’r sgoriau posib ar yr ochrau agored.

Cyfanswm yr ochrau agored = Nifer y pwyntiau

0 = 0 pwynt
1 = 0 pwynt
2 = 0 pwynt
3 = 1 pwynt
4 = 0 pwynt
5 = 1 pwynt
6 = 2 pwynt
7 = 0 pwynt
8 = 0 pwynt
9 = 3 pwynt
10 = 2 pwynt
11 = 0 pwynt
12 = 4 pwynt
13 = 0 pwynt
14 = 0 pwynt
15 = 8 pwynt
16 = 0 pwynt
17 = 0 pwynt
18 = 6 pwynt
20 = 4 pwynt
22 = 0 pwynt

Os bydd digon o dimau wedi cofrestru yna bydd y gystadleuaeth yn cael eu chwarae ar ffurf cynghrair - A a B. Bydd enillydd A yn chwarae'r tîm ddaeth yn ail yn B ac i'r gwrthwyneb, gyda'r enillwyr yn chwarae yn y ffeinal a'r timau sy'n colli yn chwarae am y 3ydd a'r 4ydd safle.

Bydd penderfyniad y prif stiward yn derfynol.

Mae gan CFFI Maldwyn yr hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'r rheolau uchod.

'TIPPIT'

LLEOLIAD – Clwb 'Monty', Y Drenewydd **I GYCHWYN** – 4.30yp

Byddem yn ddiolchgar petae pob cystadleuwr yn aelod cyflawn o'r Mudiad o leiaf 7 diwrnod cyn diwrnod y gystadleuaeth.

Os na ellir dangos cerdyn aelodaeth neu os dangosir cerdyn heb llun mewn unrhyw gystadleuaeth fe fydd yn rhaid talu dirwy o £5, fydd y dirwy ddim yn cael ei dalu'n ôl.

CYMHWYSEDD - Tîm o 3 aelod(bechgyn neu merched, gyda o leia un o bob rhyw yn y tîm), i gyd i fod 26 oed a thanno 1af Medi 2010.

Eglurir y rheolau i'r timau gan y Prif Stiward cyn cychwyn y gystadleuaeth.

Mae penderfyniad y Prif Stiward yn derfynol.

Mae CFfI Maldwyn yn cadw'r hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.